



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN
AR DDYDD MERCHER, 25AIN EBRILL 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Mrs B.A. Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth Strategaeth - Addysg, Cynllunio a Strategaeth), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), M. Headington (Rheolwr Mannau? Agored a Chludiant), F. Wilkins (Rheolwr Tai'r Sector Cyhoeddus), A. West (Ysgolion 21ain Garrif, Rheolwr Derbyniadau a Gwaharddiadau) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd D. Poole (Arweinydd), Mrs N. Scammell (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr N. George a Mrs B. A. Jones ddiddordebau personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda – *Adolygiad o'r Panel Ailgodi Tâl am Atgyweiriadau ac Apelio*. Mae manylion ohonynt yn cael eu cofnodi gyda'r eitemau perthnasol.

3. COFNODION CABINET - 11EG EBRILL 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11eg Ebrill 2018.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. ADOLYGIAD O'R PANEL APELIO AC AILGODI TÂL AM ATGYWEIRIADAU

Datganodd y Cynghorwyr N. George a Mrs B. A. Jones ddiddordebau personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn ddau Denant Cyngor. Gadawsant yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni chymeron nhw rhan yn y ddadl.

Cynghorwyd y Cabinet bod y Polisi Ailgodi Tâl am Atgyweiriadau yn caniatáu i denantiaid ofyn am adolygiad annibynnol o'u had-daliad os oes ganddynt reswm da i anghytuno â phenderfyniad blaenorol a wnaed gan Swyddogion/Rheolwyr. Mae'r broses adolygu'n cynnwys tri cham; adolygiad anffurfiol gan swyddogion, adolygiad ffurfiol cam cyntaf gan Reolwr, ac adolygiad ffurfiol ail gam gan y Panel Ailgodi Tâl am Atgyweiriadau ac Apelio, sy'n gwneud argymhelliad i'r Prif Swyddog Tai (sydd â'r penderfyniad terfynol) ynghylch a ddylai'r ad-daliad gael ei gadarnhau. Roedd ail adolygiad y cam yn disodli ail gam y Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol o ran ad-daliadau'n unig. Awgrymodd y Grŵp Atgyweirio a Gwelliannau y Panel ym mis Awst 2014 a chafodd ei ystyried yn gyfle i gynnwys tenantiaid ac Aelodau mewn adolygiadau.

Cynigiwyd, oherwydd yr adnoddau ychwanegol helaeth sydd eu hangen wrth hwyluso'r panel, goblygiadau cost, oedi canlyniadol wrth wneud penderfyniadau a'r nifer gyfyngedig o achosion a ddygwyd ymlaen, y dylid disodli defnyddio adolygiadau panel ar gyfer ail gam gweithdrefn i adlewyrchu ail gam y Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol. Yna byddai'r Prif Swyddog Tai neu Reolwr Tai'r Sector Cyhoeddus yn gwneud y penderfyniad terfynol. Byddai'r dull amgen hwn yn sicrhau bod ansawdd a chysondeb gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag adolygiadau yn cael eu cynnal (gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag Uwch Swyddogion) a byddai trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i hysbysu tenantiaid ynghylch gwneud penderfyniadau. Nodwyd mai dim ond 9 achos adolygu a gafwyd yn ystod y 18 mis diwethaf.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r costau dan sylw a chadarnhaodd y Swyddog fod cost am ymgynnull panel oddeutu £660. Mae'r ffigur hwn yn gysylltiedig ag amser Swyddogion, cynhyrchu a dosbarthu dogfennau, adroddiadau, golygu gwybodaeth a chopïau o'r holl ddogfennau ar gyfer holl aelodau'r panel a threuliau teithio ar gyfer Swyddogion a Thenantiaid ar gyfer pob cyfarfod. Hyd yn hyn, mae'r costau hyn wedi gorbwyso cost wirioneddol yr ad-daliadau sy'n cael eu hadolygu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod, yn amodol ar yr uchod, bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol i baragraff 10.1., gan gynnwys penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag adolygiadau ail gam mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet yn dilyn ymchwiliad gan Reolwr Tai'r Sector Cyhoeddus neu'r Prif Swyddog Tai, bod: -

- (i) y Panel Ailgodi Tâl am Atgyweiriadau ac Apelio yn cael ei ddiddymu;
- (ii) pob adolygiad ail gam o atgyweiriadau y gellir ailgodi tâl amdanynt yn cael ei ymchwilio gan ddefnyddio proses sy'n adlewyrchu ail gam y Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol;
- (iii) y monitro o gysondeb wrth weithredu'r Weithdrefn Ailgodi Tâl am Atgyweiriadau mewn perthynas â cheisiadau am adolygiad a disgrisiwn yn cael eu gwneud gan Banel y Rheolwr Tai bob chwarter
- (iv) adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Atgyweirio a Gwella ar y nifer, natur a chanlyniad adolygiad ail gam o ailgodi tâl am atgyweiriadau a

ystyriwyd o dan y weithdrefn ddiwygiedig, ynghyd â'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag adolygiadau anffurfiol a cham 1 ffurfiol;

- (v) penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag adolygiadau ail gam cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet yn dilyn ymchwiliad gan Reolwr Tai'r Sector Cyhoeddus neu'r Prif Swyddog Tai.

5. CAEAU CHWARAE YSGOL BEDWELLTE

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gynnig i ddatgan dau gae pêl-droed a leolir ar dir yr hen Ysgol Gyfun Bedwellte, Aberbargod a ddangosir mewn coch ar y Cynllun sydd ynghlwm yn Atodiad 1, fel gweddill. Mae hefyd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad statudol fel sy'n ofynnol gan Fesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 a'r Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 cysylltiedig. Gallai'r canlyniad o hynny ganiatáu gwerthu'r safle ar gyfer datblygiad preswyl. Bydd hyn yn destun adroddiad pellach i'r Cabinet.

Cynghorwyd y Cabinet bod Ysgol Gyfun Bedwellte wedi cau yn 2005 a'i dymchwel wedyn. I ddechrau, ni chafodd y caeau chwarae eu defnyddio ond yn ddiweddar fe'u defnyddiwyd gan Uwch Dîm Clwb Pêl-droed Athletig Trelyn. Mae'r safle cyfagos wedi'i werthu ar gyfer tai a rhaid symud neu adleoli'r pafiliwn sy'n gwasanaethu'r caeau chwarae erbyn 31ain Mai 2018. Yn ogystal, byddai angen gwneud darpariaeth ar gyfer parcio ceir, sy'n arbennig o broblem o fewn y safle a gedwir a gallai hyn gostio £50,000 pellach. Mae tir cartref arall a mwy cyfleus ar gael ar gyfer Clwb Pêl-droed Athletig Trelyn ym Mharc Trelyn. Os caiff safle'r caeau chwarae ei werthu ar gyfer datblygiad preswyl, gellid cyflawni derbyniad cyfalaf o tua £500,000.

Trafododd yr Aelodau y ddarpariaeth chwarae amgen ac eglurwyd bod Uwch Dîm Clwb Pêl-droed Athletig Trelyn a defnyddwyr presennol Parc Trelyn wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Awdurdod mewn perthynas â'r cynnig (gyda darpariaeth ystafell newid gwell). Bydd hyn yn sicrhau y caiff y ddarpariaeth bresennol ym Mharc Trelyn ei defnyddio'n llawn a bydd y tîm pêl-droed yn cael ei adleoli yn ôl i ganol y pentref. Ar hyn o bryd, mae gan Barc Trelyn 2 gae rygbi a'r cynnig yw y bydd 1 yn parhau fel cae rygbi a bydd yr ail yn gae defnydd deul? Bydd y Cyngor yn talu cost fechan mewn perthynas â'r ail gae.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, bod: -

- (i) y caeau chwarae a ddangosir mewn coch ar y cynllun sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn cael eu diddymu ar ddiwedd y tymor presennol (20ain Mai 2018) a chael eu datgan yn weddill;
- (ii) y broses o gydymffurfio â Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 yn cychwyn;
- (iii) adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda chanlyniad yr ymgynghoriad a fydd yn cynnwys argymhellion ar ailddyrrannu'r tir neu ymgymryd â'r broses sy'n ofynnol i waredu'r caeau chwarae.

6. GWEITHREDU'R CORFF CYMERADWYO SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflawni'r swyddogaeth statudol

newydd i'r Cyngor sefydlu Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy o dan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Cynghorwyd y Cabinet bod Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn am ddraenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd i gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i systemau draenio dŵr wyneb gael eu cymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy cyn y gall gwaith adeiladu gyda goblygiadau draenio ddechrau. Y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyflwyno swyddogaethau'r Systemau Draenio Cynaliadwy ochr yn ochr â'u dyletswyddau fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, a bydd y swyddogaeth hon yn cychwyn ym mis Mai 2018 gyda chyfnod pontio arfaethedig o 6 mis.

Eglurwyd y bydd y Systemau Draenio Cynaliadwy, fel corff annibynnol o fewn yr Awdurdod Lleol, yn delio â phroses gymeradwyo statudol dechnegol ac yn gallu codi tâl am wasanaethau o fewn y broses hon. Manylwyd ar enghreifftiau o agweddau trethadwy yn yr adroddiad. Mae achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i ystyried yr adnoddau a'r swyddi staff ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaeth statudol, a rhagwelir y bydd cynhyrchu incwm o'r Systemau Draenio Cynaliadwy yn cwmpasu pob costau cyflog a gorbention sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r swyddogaeth hon. Yn ogystal, mae potensial ar gyfer cynhyrchu incwm pellach drwy weithio rhanbarthol a chydweithio gydag awdurdodau cyfagos sydd â llai o adnoddau a gwybodaeth dechnegol i gyflawni'r swyddogaeth statudol hon.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, bod:-

- (i) y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy gofynnol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn cael eu sefydlu, ynghyd â'r swyddi hunan-ariannu ychwanegol a fydd yn caniatáu i CBSC gyflawni'r swyddogaeth statudol hon a chadw'r wybodaeth ac arbenigedd peirianeg lleol yn CBSC.

7. CYNIGION BAND B YSGOLION 21AIN GANRIF AC ADDYSG

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad gofnod o'i gwerthfawrogiad am y maint o waith a wnaed gan Swyddogion wrth lunio'r adroddiad. Mae'n nodi cynigion Band B uchelgeisiol mewn modd teg a fydd yn fforddio cyfleoedd gwych i bob dysgwr. Adleisiwyd hyn gan y Cabinet a'r Prif Weithredwr Dros Dro.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet mewn egwyddor i gyflwyno Rhaglen Band B Ysgolion 21ain Ganrif, yn amodol ar gadarnhau cyllid ar gyfer prosiectau unigol, achosion busnes yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a chanlyniad yr ymgynghoriadau unigol.

Gofynnodd Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol Band B i'w hystyried erbyn 31/07/17. Oherwydd yr amserlen dynn a nodwyd, nid oedd modd cael cymeradwyaeth Aelodau cyn cyflwyno'r Rhaglenni Amlinellol Strategol. Fodd bynnag, cymeradwywyd y cynigion gan Fwrdd Strategaeth Ysgolion a thrafodwyd yn fanwl gyda'r Aelod Cabinet. Gwnaethpwyd yn glir i Lywodraeth Cymru nad oedd y cyflwyniad wedi derbyn cymeradwyaeth yr Aelodau eto, a gallai fod yn destun newid.

Cynghorwyd y Cabinet am nodau allweddol y Rhaglen sy'n cynnwys lleihau nifer yr ysgolion cyflwr gwael, gan sicrhau bod yr ysgolion maint cywir yn y lleoliad cywir ac yn darparu digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Hefyd, i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystad addysgol i'w defnyddio gan yr Ysgolion a'r Gymuned ehangach. Roedd arolygon cyflwr ysgolion, a gynhaliwyd yn 2014, yn dosbarthu ysgolion yng nghategoriâu A i D (A yw'r cyflwr gorau a D yw'r cyflwr gwaethaf). Nid oedd yr arolygon yn nodi unrhyw ysgolion

categori cyflwr D yng Nghaerffili; Fodd bynnag, mae 53 o ysgolion cyflwr categori C (sy'n gategori eang iawn), ac mae 16 ohonynt hefyd yn gategori C er mwyn eu haddasu. Mae unrhyw newidiadau arwyddocaol i adeiladau ysgol ers 2014, er enghraifft adeiladau newydd, wedi cael eu hystyried o fewn y categoreddio hwn.

Nodwyd y bydd y prosiectau arfaethedig yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw sydd ar ôl a chostau ynni parhaus yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallent hefyd ystyried ffactorau eraill megis hyblygrwydd asedau, effeithlonrwydd yr ystâd addysg ac amddifadedd wrth flaenoriaethu prosiectau.

Eglurwyd, yn dilyn cytundeb y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2017, sefydlwyd Gweithgor Trawsbleidiol o 10 Aelod i drafod y cynigion. Cyfarfu'r grŵp ar 10/11/17 a 26/11/17 ac mae'r adroddiad yn crynhoi trafodaethau ac argymhelliadau'r Gweithgor Trawsbleidiol o ran y prosiectau unigol a amlinellir yng nghyflwyniad Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor i Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn cyfrannu at y Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Darparwyd trosolwg mewn perthynas â phob un o'r 9 prosiect arfaethedig a nodwyd manylion y manteision a'r trafodaethau grŵp ym mharagraff 4 yn yr Adroddiad. Gwerth y Rhaglen a gyflwynwyd gan Gaerffili oedd £78 miliwn o arian cyfalaf (50% i'w fodloni gan y Cyngor) a £32 miliwn o gyllid referniw trwy'r Model Buddsoddi Trefol (25% i'w fodloni gan y Cyngor). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cymeradwyaeth mewn egwyddor o amlen y rhaglen ar gyfer y swm hwn, yn amodol ar gymeradwyaeth achosion busnes prosiectau unigol.

Hysbyswyd yr Aelodau y disgwylir i'r Rhaglen Band B gael ei rhedeg o fis Ebrill 2019 hyd at Fawrth 2026. Rhagwelir y bydd costau i'w talu cyn Ebrill 2019 mewn perthynas â dylunio, cwmpasu ac arolygu safleoedd ysgol, ac ati. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes, y byddai Awdurdodau yn gallu cael gafael ar 50% o arian cyfatebol cyn y dyddiad cychwyn ar gyfer 2019. Mae cynllun manwl sy'n nodi graddfeydd amser arfaethedig ar gyfer pob prosiect dros y cyfnod o 7 mlynedd yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo swyddogion i sicrhau y gellir cyflawni'r holl rwymedigaethau ymgynghori statudol ac adeiladu graddfeydd amser. Nodwyd bod holl brosiectau Band A yn dod o fewn y gyllideb.

Trafododd y Cabinet y prosiectau arfaethedig ac yn benodol Prosiect 6 sy'n ymwneud â'r gwaith adnewyddu ac uwchraddio i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y safon i'w gyflawni a hysbyswyd yr Aelodau am yr uwchraddiad diweddar i Ysgol Gyfun Coed Duon. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau megis gwresogi, lloriau, 4 Labordy newydd a'r to sydd wedi gwella'r effaith weledol yn sylweddol.

Cyfeiriodd Aelod at Ysgol Idris Davies 3-18 a agorwyd yn ddiweddar a'r manteision o gael y Ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â'r cyfleuster a gofynnodd a fyddai'r opsiwn hwn ar gael i'r adeiladau ysgolion newydd arfaethedig. Dywedodd swyddogion fod cyllid Dechrau'n Deg yn cael ei ddyrannu o gyllideb wahanol i Ysgolion yr 21ain Ganrif a phe bai arian ar gael, yna gellid ystyried hyn fel rhan o'r cynigion wrth symud ymlaen.

Trafododd yr Aelodau'r Model Buddsoddi Trefol a chadarnhawyd nad yw'r model yn gytundeb Menter Cyllid Preifat, gan mai dim ond y gwasanaethau ysgol a ddarperir o dan contract Model Buddsoddi Trefol fydd cynnal a chadw adeiladau. Bydd contractau ysgol eraill, megis arlwy, glanhau, tiroedd, TGCh, ac ati, yn cael eu darparu gan sefydliadau a bennir gan y Corff Llywodraethol. Cadarnhaodd y swyddogion y byddant yn gofyn i Sara Humber, Cyfarwyddwr Rhaglen Model Buddsoddi Trefol Ysgolion 21ain Ganrif (Partneriaethau Lleol), fynychu Cyfarfod Datblygu Polisi yn y dyfodol i rannu ei phrofiad yn y maes hwn, gyda'r Aelodau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, bod: -

- (i) mewn egwyddor, cytunir ar y cynigion i gyflwyno Rhaglen Band B Ysgolion 21ain Garrif, yn amodol ar gadarnhau cyllid ar gyfer prosiectau unigol, gan achosion busnes sy'n cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r canlyniad ymgynghoriadau unigol.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.00 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 16eg Mai, 2018.

CADEIRYDD